RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2017

# Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014: De-Orllewin Cymru

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-4734-9250-9

**Teitl: Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014**
**Is-deitl: De-Orllewin Cymru**
**Awdur: Patience Eastwood**

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Patience Eastwood

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth,

Ceredigion

SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2278

E-bost: patience.eastwood@wales.gsi.gov.uk

# De-Orllewin Cymru

| Teithiau (miloedd) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydan Fawr) | 2,160 | 2,089 | -3% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 175 | 194 | +10% |
| Ymweliadau dydd | 20,667 | 20,000 | -3% |
| Cyfanswm | 23,002 | 22,283 | -3% |

| Gwariant (£ miliwn) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydain Fawr) | 397 | 390 | -2% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 62 | 74 | +19% |
| Ymweliadau dydd | 660 | 670 | +2% |
| Cyfanswm | 1,119 | 1,134 | +1% |

Mae rhanbarth twristiaeth y De-Orllewin yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ac felly mae'n rhanbarth sy'n cynnwys cymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol.

Mae'r rhanbarth yn cynnwys Parc Cenedlethol Arfordir Penfro, ac mae'r arfordir yn boblogaidd gyda'r sawl sydd am cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Cymru.


Yn ogystal â dinas Abertawe, a dinas leiaf Cymru, Tyddewi, lleolir yn rhanbarth hwn drefi megis Hwlffordd, Caerfyrddin, Penfro, Aberdaugleddau, a Dinbych-y-Pysgod, ymhlith eraill.

## 1. Ymweliadau dros nos o'r DU

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2012-2014 oni nodir fel arall..

Mae nifer yr ymweliadau dros nos o'r DU â'r De-Orllewin wedi codi dros y naw mlynedd diwethaf, o 1,815,000 ar gyfartaledd y flwyddyn yn 2006-08 i 2,089,000 y flwyddyn yn 2012-14. Mae gwariant hefyd wedi codi, o £326 miliwn i £390 miliwn y flwyddyn dros yr un cyfnod.

Ffig1.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau dros nos o'r DU))





Mae ymweliadau dros nos gan breswylwyr Prydeinig â'r rhanbarth yn cyfrif am ychydig dros 20% o'r holl deithiau domestig i Gymru a'r gwariant yn cyfrif am 24% o'r holl arian a wariwyd ar ymweliadau dros nos â Chymru.

**Diben y Daith**

Mae mwyafrif y teithiau i Dde-Orllewin Cymru at ddibenion gwyliau, gyda’r rhain yn cyfrif am ddau draean o’r holl deithiau dros nos i’r rhanbarth – canran debyg i ganran Cymru gyfan. Mae canrannau’r teithiau ar gyfer busnes neu i ymweld â a ffrindiau neu’r teulu hefyd yn debyg i’r canrannau ar gyfer Cymru gyfan.


Ffig.1.2: Diben yr Ymweliad (Ymweliadau dros nos o'r DU)





**Patrwm tymhorol**

Mae ymweliadau â’r De-Orllewin ychydig yn fwy tymhorol nag y rhai â Chymru yn ei chyfanrwydd, gyda’r ganran uchaf o deithiau yn ystod misoedd yr haf.

Ffig.1.3: Ymweliadau fesul Chwarter (Ymweliadau dros nos o'r DU)




Ffig. 1.4: Y math o le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau dros nos o'r DU)



**Y Math o Le**

Glan mor yw'r math o le mwyaf poblogaidd o lawer ar gyfer ymweliadau domestig dros nos â'r De-Orllewin – dim syndod wrth ystyried arfordir hir, hardd y rhanbarth. Mae gan y rhanbarth ganran uwch na'r cyfartaledd o ran ymweliadau â glan mor, er ei fod hefyd yn dod yn ail ymhlith rhanbarthau twristiaeth Cymru o ran y ganran o ymweliadau â dinasoedd a threfi mawr.

**Rhanbarth tarddiad**

Roedd ymwelwyr domestig dros nos â'r rhanbarth hwn yn debygol iawn o darddio o fewn Cymru. Roeddent ychydig yn fwy tebygol o darddio o Dde Lloegr nag yw ymwelwyr â Chymru yn ei chyfanrwydd - dim syndod am fod y rhanbarth yn rhwyddach ei gyrraedd o Dde Lloegr nag yw Canolbarth a Gogledd Cymru.


Tabl 1.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau dros nos o'r DU)

| Rhanbarth Tarddiad | Cyfartaledd Blynyddol Teithiau, (Miloedd) | Cyfran o Holl Teithiau i De-Orllewin Cymru |
|---|---|---|
| Yr Alban | 11 | 1% |
| Cymru | 807 | 39% |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 51 | 2% |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 120 | 6% |
| Swydd Efrog / Glannau Humber | 85 | 4% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 124 | 6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 249 | 12% |
| Dwyrain Lloegr | 68 | 3% |
| Llundain | 139 | 7% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 203 | 10% |
| De-Orllewin Lloegr | 233 | 11% |

**Y Math o Lety**

Mae ymwelwyr â De-Orllewin Cymru yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i aros mewn llety hunanddarpar, ac mae gan y rhanbarth y ganran uchaf o ymwelwyr sydd yn defnyddio llety o'r math hwn.

Ffig. 1.5: Y Math o Lety (Ymweliadau dros nos o'r DU)




## 2. Ymweliadau Rhyngwladol

Daw data yn yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2010-14 oni nodir fel arall.

Cyrhaeddodd ymweliadau o dramor â De-Orllewin Cymru frig o 227,000 y flwyddyn yn 2004-06 ond wedyn bu gostyngiad cyson am sawl blwyddyn. Fodd bynnag, mae peth adferiad wedi bod yn ddiweddar, ac yn 2012-14 roedd cyfartaledd o 191,000 o ymweliadau yn flynyddol, ychydig yn uwch na'r 190,000 y flwyddyn a gofrestrwyd yn 2002-04.

Mae gwariant ar ymweliadau o dramor wedi codi'n fwy sylweddol, o £50 miliwn y flwyddyn yn 2002-04 i £74 miliwn y flwyddyn yn 2012-14.


Ffig. 2.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Diben yr ymweliad**

Mae'r cyfrannau ar gyfer ymweliadau â'r De-Orllewin o dramor yn ôl diben yn debyg iawn i'r rheiny ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, gyda tua 4 o bob deg taith yn daith wyliau, ychydig dros draen i ymweld â ffrindiau neu'r teulu, a'r rhan fwyaf o'r ymweliadau sy'n weddill yn deithiau busnes.


Ffig. 2.2: Diben y Daith (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Gwlad Tarddiad**

Mae gan y De-Orllewin gyfran uwch o ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon ac o'r Almaen nag y mae gan Gymru yn ei chyfanrwydd, a chanran ychydig yn is o ymwelwyr o'r UDA.  Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaethau mawr rhwng y rhanbarth hwn a Chymru yn ei chyfanrwydd.

Ffig. 2.3: Gwlad Tarddiad Ymwelwyr (Ymweliadau Rhyngwladol)



## 3. Ymweliadau Dydd


Daw data yn yr adran hon o Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.

Ar gyfartaledd dros y pedair blynedd 2011-14, roedd 20 miliwn o deithiau undydd i'r De-Orllewin, gyda gwariant cysylltiedig o £638 miliwn y flwyddyn. Dyma 21% o'r holl ymweliadau dydd â Chymru, a 20% o'r gwariant cysylltiedig.

**Diben yr Ymweliad**

Roedd teithiau i'r De-Orllewin yn fwyaf tebygol o fod ymweliadau â ffrindiau neu'r teulu, gyda 4 miliwn o ymweliadau yn y categori hwn.

Ffig. 3.1: Gweithgareddau Cyffredin ar Ymweliad Dydd





Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn ar o leiaf 2 filiwn o ymweliadau.

**Math o Le**

Ymhlith rhanbarthau Cymru, roedd gan y De-Orllewin y ganran uchaf o ymweliadau dydd â threfi bach – y categori cyrchfan mwyaf poblogaidd yn y rhanbarth. Ni ddylai neb synnu am hyn gan fod nifer o drefi bach, yn enwedig ar arfordir Penfro, sydd yn ddeniadol iawn i dwristiaid.

Ffig. 3.2: Y Math o Le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau Dydd)



**Rhanbarth tarddiad**
Daw mwyafrif yr ymweliadau dydd o'r rhanbarth ei hunan, patrwm a welir yn sawl rhanbarth yng Nghymru.

Roedd hefyd nifer o ymweliadau o Ganolbarth Cymru, De-Ddwyrain Cymru a De Lloegr. Ni ddylai neb synnu am hyn, o ystried daearyddiaeth y rhanbarth a'r cysylltiadau trafnidiaeth (yn enwedig y drafforddd M4).


Tabl 3.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau Dydd)

| Rhanbarth Tarddiad | Ymweliadau, Miliwn |
|---|---|
| Canolbarth Cymru | 1 |
| De-Orllewin Cymru | 11 |
| De-Ddwyrain Cymru | 2 |
| De-Ddwyrain Lloegr | 1 |
| De-Orllewin Lloegr | 1 |

Yn cynnwys pob rhanbarth sy'n rhanbarth tarddiad ar gyfer o leiaf 1 miliwn ymweliadau dydd.

**Y pellter teithio**
Roedd gan y De-Orllewin y ganran uchaf o ymwelwyr undydd a oedd yn teithio pellterau canolig (rhwng 10 a 40 milltir). Efallai bod hyn yn gysylltiedig â chymeriad y rhanbarth: nid ardal brin ei phoblogaeth fel Canolbarth Cymru na chwaith yn ardal drefol yn bennaf fel De-Ddwyrain Cymru.


Ffig. 3.3: Y Pellter Teithio (Ymweliadau Dydd)



**Dull Teithio**

Dyma'r rhanbarth sydd â'r ganran uchaf o ymwelwyr dydd sy'n defnyddio car fel dull teithio, a'r ganran isaf o'r rheiny sy'n defnyddio'r trên.  Mae hyn i ymwneud â natur y cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y rhanbarth a gweddill Cymru (ac ymhellach i Loegr), sydd yn bennaf gysylltiadau ffordd yn hytrach na rheilffordd.

Ffig 3.4: Dull teithio (Ymweliadau Dydd)




## 4. Defnydd Llety

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Defnydd Llety Twristiaeth Cymru.


Mae gan y De-Orllewin y cyfraddau uchaf ar gyfer sefydliadau gwely a brecwast/tai llety yn rhanbarthau Cymru i gyd.  Mae cyfraddau defnydd hostelau yn is na'r cyfartaledd ond mae cyfraddau defnydd gwestai a llety hunanddarpar yn agos i gyfartaledd cenedlaethol Cymru.

Ffig 4.1: Cyfradd defnydd dros amser




Does braidd dim tueddiad i'w ddirnad o ran newid i'r cyfraddau defnydd dros amser, er bod tueddiad bach i'r cyfraddau ostwng hyd at oddeutu 2011-12 ac wedyn i godi.

Ffig 4.2: Cyfradd Defnydd, 2014




## 5. Cyflog

Daw data yn yr adran hon o Ystadegau Sector â Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.


Mae gan y De-Orllewin y gyfran isaf o swyddi yn y diwydiant twristiaeth ymhlith rhanbarthau Cymru er bach iawn yw'r gwahaniaeth.  Mae'n amlwg bod twristiaeth yn bwysig i'r rhanbarth, gyda 9% o gyflogaeth yn y diwydiant. Mae'r ganran o gyflogaeth mewn twristiaeth yn amrywio yn ôl ardal, gydag 11% o gyflogaeth yn Sir Benfro yn y diwydiant ond dim ond 6% yn Sir Gaerfyddin.

Ffig. 5.1: Cyflogaeth mewn Twristiaeth



Mae'r ganran o gyflogaeth yn y diwydiant twristiaeth, yn ogystal â'r nifer o swyddi yn y diwydiant twristiaeth, wedi codi ers 2005, o 24,100 yn 2005 i 28,000 yn 2014.

Ffig. 5.2: Newid mewn Cyflogaeth Twristiaeth dros Amser



## 6. Stoc gwlâu


Daw data yn yr adran hon o'r adroddiad Stoc Gwlâu. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2013 oni nodir fel arall.

Gyda 33% o’r holl sefydliadau llety, a 27% o’r holl leoedd gwely yng Nghymru, mae gan y De-Orllewin mwy o lety ar gyfer twristiaid nag unrhyw rhanbarth arall ac eithrio’r Gogledd. Lleolir dau draean o’r capasiti yn Sir Benfro ac felly mae Sir Benfro yn darparu 18% o’r holl leoedd gwely yng Nghymru.


Mae cyfran uwch o lety hunanddarpar yn y rhanbarth na’r cyfartaledd, yn enwedig yn Sir benfro. Lleolir 31% o’r holl lefydd gwely hunanddarpar Cymru yn Sir Benfro, mwy nag yn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

Mae gan y rhanbarth cyfran is o leoedd gwely llety â gwasanaeth (gwestai, sefydliadau gwely a brecwast/tai llety) na’r cyfartaledd ond Sir Benfro yn unig sydd yn gyrru’r tueddiad hwn: mae gan yr awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth gyfrannau o lety â gwasanaeth yn uwch na’r cyfartaledd, yn enwedig Castell-nedd Port Talbot, lle mae bron hanner o’r lleoedd gwely sydd ar gael yn y categorïau llety â gwasanaeth (er bod y niferoedd absoliwt yn gymharol fach).


Ffig. 6.1: Gwlâu Twristiaeth




Ffig. 6.2: Gwlâu Llety â Gwasanaeth



Ffig. 6.3: Gwlâu Hunanddarpar




Ffig. 6.4: Gwlâu mewn Gwersyll/Carafán

